Dathlu Ennill y Rhuban Glas!

Nid bob blwyddyn bydd un o'n haelodau yn ennill y Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Dyma'r brif gystadleuaeth i'r unawdwyr a llwyddodd Huw Euron i gyflawni'r gamp yn Eisteddfod Glyn Ebwy eleni. Trefnwyd cyfarfod arbennig gan y Gymdeithas i longyfarch Huw ar ei lwyddiant. Diolch yn arbennig i Sybil Bevan am lywio'r noson ac i Aled Gwyn am ei englynion cofiadwy.

I Gyfarch Huw Euron ar Ennill y Rhuban Glas
Eisteddfod Blaenau'r Cymoedd - Glyn Ebwy 2010

Huw Euron, ti yw'n harwr; - blaen y gad
Blaenau Gwent yw'r canwr;
daeth Rhuban Glas i'r baswr
o fwrw'i gân, fe yw'r gwr.

hwn yw utgorn y datgan, - mawr y wledd,
môr o lais fel taran.
Mor goeth y bu'n morio'i gân;
cafwyd perfformiad cyfan.

Ei repertoire *a garwn, - a'i hwylus*
feistrolaeth a welwn;
yn amlach ni a deimlwn
y cywir ias trwy'r cawr hwn.

Fel saeth o'r Genedlaethol, - yr ei di
ar dy hynt gerddorol
i roi i'n wefr heb droi 'nôl;
dy fyd yw y dyfodol.

Aled Gwyn